# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-17-09 Papur 1: 8 Rhagfyr 2009

### Deisebau newydd

Mae’r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau sydd i gael eu hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2009.

### (i) P-03-243 Tynnu’n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarth Gorllewin Swydd Gaer / Gogledd-ddwyrain Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu nôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarth Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru.

Rydym ni, yr isod, yn dadlau fod strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer/Gogledd-ddwyrain Cymru yn gynllun difeddwl, hynod niweidiol a thwyllodrus. Mae’r oblygiadau’n enfawr, gan effeithio ar nifer fawr o agweddau o fywyd yng Ngogledd Cymru:

- Hunaniaeth a hawliau dynol (yn nhermau identiti Cymreig, iaith, diwylliant, cymeriad a mynegiant)
- Amgylcheddol (yn nhermau cynaladwyedd, ecoleg, yr amgylchedd a’r amgylchedd adeiladol) a
- Cynaladwyedd cymdeithasol (yn nhermau demograffeg, economeg, gwleidyddiaeth a chymunedau).

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Gyngor Pobl Gogledd Cymru, a chasglodd 15220 o lofnodion. Dyma’r nifer fwyaf o lofnodion a gasglwyd ar ddeiseb a gafodd y Pwyllgor hyd yma. Mae’r deisebydd wedi darparu gwybodaeth i gefnogi’r ddeiseb, ac mae i’w gweld fel atodiad i’r papur hwn yn PET(3) 17-09 Papur 1A.

### (ii) P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael gartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Gofynnwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys gwybodaeth ac addysg am adael gartref yn y cwricwlwm cenedlaethol.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan wirfoddolwyr ifanc ar ran Shelter Cymru, a chasglodd 350+ o lofnodion. Mae’r deisebydd wedi darparu gwybodaeth i gefnogi’r ddeiseb, ac mae i’w gweld fel atodiad i’r papur hwn yn PET(3) 17-09 Papur 1A.

### (iii) P-03-268 Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Aneurin Bevan

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Uned Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty newydd Aneurin Bevan - Ysbyty Blaenau Gwent.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan Rhianydd Williams, a chasglodd 16 o lofnodion. Hefyd, casglodd deiseb gysylltiedig â hi 302 o lofnodion.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2009**